

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV32

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / Response from The National Centre for Learning Welsh

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

At sylw: seneddDGCh@senedd.cymru

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cefndir

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gorff ifanc, arloesol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae holl waith y Ganolfan yn cyfrannu at 'Cymraeg 2050' drwy ddysgu'r Gymraeg i unigolion a rhoi cyfleoedd iddynt ei ddefnyddio.

Ar 1 Awst 2016 dechreuodd y Ganolfan ariannu 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg yn dilyn proses o ad-drefnu a lleihau nifer y darparwyr. Mae'r darparwyr yn cynnig gwersi ar draws Cymru, ac yn cefnogi dysgwyr y Gymraeg trwy gynnal cyrsiau atodol a digwyddiadau cymdeithasol.

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg gymunedol Cymraeg i Oedolion – o'r cwricwlwm ac adnoddau i ymchwil, marchnata a datblygiadau dysgu digidol. Ers ei sefydlu mae hefyd wedi cyflwyno cynllun llwyddiannus 'Cymraeg Gwaith' i ddysgu'r Gymraeg i gyflogwyr yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan yn creu cyfleoedd creadigol newydd i ddysgwyr wrth iddynt ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn y cyfnod diweddar.

Mae'r Ganolfan yn cyhoeddi data yn flynyddol, ac mae'r data diweddaraf yn dangos bod 13,260 o ddysgwyr unigryw yn ystod 2018-2019, cynnydd o 5% o gymharu â 2017-2018. Cyflogir oddeutu 500 o diwtoriaid ar draws Cymru (llawn a rhan amser).

Ymateb i Covid-19

Beth fu effaith uniongyrchol Covid-19 ar y sector?

Ers canol mis Mawrth 2020, mae'r sefyllfa iechyd cyhoeddus wedi trawsnewid y sector Dysgu Cymraeg, gyda chysiau cymunedol yn cael eu cynnal o bell, gan ddefnyddio technoleg megis Zoom, Skype neu debyg. Cefnogir dysgwyr i barhau gyda'u dysgu, gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd.

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV32

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / Response from The National Centre for Learning Welsh

Mae mentrau digidol newydd wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gwersi Dysgu Cymraeg dyddiol sy'n cael eu ffrydio'n fyw ar dudalen Facebook y Ganolfan, a sesiynau 'thematig' digidol o bob math wedi'u trefnu gan y darparwyr cwrs, i gefnogi'r dysgwyr.

Mae gallu'r Ganolfan i ymateb mor gyflym i'r amodau o ymbellhau cymdeithasol wedi gallu digwydd oherwydd penderfyniad y Ganolfan i greu platfform dysgu digidol aml-haenog, sy'n cynnwys system rheoli dysgu (LMS) ar www.dysgucymraeg.cymru. Mae isadeiledd digidol unigryw gennym, sydd wedi ei adeiladu gyda'r dysgwr yn y canol, ac felly mae modd darparu cyfleoedd digidol arloesol wedi ei deilwra i'n cynulleidfa ni.

Eisoes roedd 1,500 o adnoddau digidol (fideo, sain a rhyngweithiol) ar y safle i gyd-fynd gyda chwrslyfrau newydd ar bum lefel o ddysgu. Ar ben hyn, roedd y Ganolfan wedi datblygu 12 cwrs, gwerth 120 awr o wersi, blasu i ddechreuwr ar-lein sydd ar agor i bawb. Roedd creu cyrsiau cyfunol newydd sy'n caniatáu i ddysgwyr ddysgu yn annibynnol am gyfran o'r cwrs yn barod yn rhan o gynlluniau'r Ganolfan, ac mae'r gwaith hwnnw wedi ei brysur fel bod modd cynnig 25% o'r cwrs ar lefel dechreuwr ar-lein o fis Mai 2020 ymlaen.

Wrth iddi ddod yn amlwg fod galw cynyddol am wersi Cymraeg yn y cyfnod hwn, aeth y Ganolfan ati i farchnata cyrsiau cyfunol cenedlaethol newydd am y tro cyntaf, gan ddechrau ym mis Mai. Mae'r cyrsiau hyn yn cyfuno dysgu o bell dan arweiniad tiwtor gydag astudiaethau ar-lein annibynnol. Mae hyn wedi golygu gwaith mawr yn creu modiwlau ar-lein ar sail cynnwys y cyrsiau .

Mae'r ymateb yn gyffredinol wedi bod yn ardderchog, gyda'r ymgyrch recriwtio yn arwain at 1,300 o bobl yn cofrestru'n llawn. Mae hyn wedi arwain at sefydlu 89 o ddsbarthiadau newydd. Trwy gydweithrediad pawb, mae'r dosbarthiadau wedi'u staffio a'r tiwtoriaid i gyd wedi derbyn hyfforddiant. Cynhelir sesiynau 'galw-i-mewn' wythnosol i'r tiwtoriaid hyn. Bu'n rhaid gosod terfyn ar y nifer o ddysgwyr am rhesymau capasiti.

Bydd ystod o gyrsiau ar bob lefel yn dechrau, yn ôl yr arfer, ym mis Medi. Mae'n debygol bydd y cyrsiau hyn hefyd yn cyfuno dysgu o bell gyda gweithgaredd ar-lein – efallai bydd elfen 'wyneb yn wyneb' yn bosib rhywbryd y flwyddyn nesaf, ond nid yw hynny'n glir eto. Mae hyn yn creu amodau cynllunio digyngail i'r darparwyr cyrsiau sydd wrthi ar hyn o bryd yn llunio rhaglenni cynhwysfawr ac amrywiol.

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV32

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / Response from The National Centre for Learning Welsh

Mae'r gwersi byw ar Facebook, a hyrwyddwyd yn organig, wedi ennyn ymateb gwych hefyd, gan ddenu 2,500 yn fwy o ddilynwyr i'r dudalen Facebook a degau o filoedd o 'views'. Mae'r gwersi cychwynnol wedi'u hesblygu yn sesiwn cwestiwn ac ateb byw ar Facebook erbyn hyn.

Mae bron i 8,000 wedi cofrestru ers 16 Mawrth ar gyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan, sy'n fwy na'r tair blynedd blaenorol gyda'i gilydd.

Felly i grynhoi, mae'r sector gyfan wedi ymateb yn wych i'r argyfwng, gyda'r dysgu wedi parhau o bell, a'r Ganolfan wedi gweld cynnydd mawr yn y diddordeb i ddysgu Cymraeg. Mae penderfyniadau cynnar y Ganolfan i sefydlu Platfform digidol sy'n cynnwys system rheoli dysgu (LMS) cynhwysfawr wedi talu ar ei ganfed.

Pa mor effeithiol y mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrrff hyd braich wedi mynd i'r afael ag anghenion y sector?

Yn gynnar yn y cyfnod trawsnewid (diwedd Mawrth 2020), bu i'r Ganolfan drafod lleihad yn ei chyllid gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r Llywodraeth ystyried ei gyllidebau ei hun, a'i ymateb i'r Pandemig. Canlyniad hyn oedd lleihad i gyllideb y Ganolfan o £1.5 miliwn rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021, gyda 40% (£1.02m) wedi ei dorri oddi ar gyllideb cynllun Cymraeg Gwaith. Bydd y Ganolfan felly yn gorfod atal rhai o'i chynlluniau a bydd yn ystyried cynnig cyfleoedd i weithwyr ddysgu Cymraeg mewn dull wahanol dros y cyfnod nesaf.

Mae'r Ganolfan yn gobeithio mai toriad dros dro yw hwn, a bod yr ymateb yn ystod y cyfnod diwethaf wedi dangos bod galw gan y cyhoedd am wersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae trafodaethau am doriadau pellach yn y gyllideb yn parhau.

Mae'n anodd dweud a oes arbedion pendant o ddysgu 'o bell' gan nad oes angen talu am leoliadau dysgu. Mae angen gwariant ychwanegol ar ddatblygu adnoddau digidol, ac mae'n rhy gynnar i ddadansoddi beth yw'r effaith cyfansawdd.

Mae'n ymddangos i ni y bydd angen parhau i fuddsoddi mewn deunyddiau digidol am nifer o flynyddoedd cyn y gellir gwneud arbedion pendant o ganlyniad i ddysgu 'o bell' neu 'arlein'.

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV32

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / Response from The National Centre for Learning Welsh

Beth fydd effeithiau hirdymor tebygol Covid-19 ar y sector, a pha gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r rheini?

Mae dau brif effaith hirdymor sydd angen mynd i'r afael ag ef:

1. Rhagwelwn y bydd patrwm dysgu y Ganolfan yn newid i'r hir-dymor, gyda chysiau o bell, ac arlein yn gallu cael eu cynnig i'r tymor hir. Mae rhai manteision, gan gynnwys manteision daearyddol, o sicrhau cyrsiau o bell i ddysgwyr a denu dysgwyr o'r tu allan i Gymru. Ar y llaw arall, gall fod anfanteision gan gynnwys diffyg cyfle i sgwrsio yn naturiol fel sydd mewn gwrs 'wyneb yn wyneb'. Rydym yn darparu hyfforddiant i'n tiwtoriaid ar dechnegau 'dysgu o bell', ac mae llu o gyfleoedd 'o bell' wedi eu trefnu gan ein darparwyr fel cyfleoedd sgwrsio ategol i'n dysgwyr. Canlyniad hyn oll yn y tymor hir fydd dibyniaeth pellach ar dechnoleg ac felly mae angen i ni sicrhau buddsoddiad rhesymol wrth ddatblygu'r adnoddau digidol i'r dyfodol.
2. Mae'r toriad mewn cyllid yn golygu nad ydym yn mynd i allu cynnig ein gwasanaeth arferol i gyflogwyr drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Rydym wedi addasu ein cynllun Cymraeg Gwaith ac yn bwriadu datblygu cynnig 'arlein' i hyd at 60 awr ar lefel Mynediad erbyn mis Medi 2020, ac mae rhai elfennau o'r cynllun, er enghraifft y Cynllun Sectorol Addysgu Uwch ac Addysg Bellach yn parhau 'o bell'.

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV32

Ymateb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / Response from The National Centre for Learning Welsh

Pa wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff hyd braich a'r sector wedi ymdrin â Covid-19?

Un elfen sydd angen mynd i'r afael ag ef, yw tlodi digidol, a sut y gellir sicrhau bod y rheiny heb offer 'yn eu cartref' yn gallu cael mynediad i'r dull newydd o ddysgu. Mae hyn yn cynnwys materion cysylltedd yn ogystal ag offer.

Sut mae modd i'r sector esblygu ar ôl Covid-19, a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi arloesedd o'r fath i ymdrin â heriau yn y dyfodol?

Nid yw'n glir beth fydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus dros fisoedd yr haf, y cyfnod recriwtio arferol. Bydd y Ganolfan yn defnyddio llwyfannau digidol i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd i ddysgu Cymraeg, beth bynnag yw'r sefyllfa, gan dynnu sylw at lwyddiant dysgu o bell, dysgu ar-lein, a dysgu sy'n cyfuno'r ddwy elfen.

Efa Gruffudd Jones

Prif Weithredwr

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mehefin 2020